THE SCHOOL AT THE HEART OF WALES

# CYLCHLYTHYR

21ain RHAGFYR 2022



## Dull Newydd Ysgol Calon Cymru tuag at Ffonau Symudol

Annwyl Rieni a Gofalwyr,

Rwy'n ysgrifennu i'ch hysbysu am ddull newydd yr ysgol tuag at ddefnyddio ffonau symudol. Pan fyddwn yn dychwelyd i'r ysgol ar gyfer Tymor y Gwanwyn ym mis Ionawr, **ni chaniateir i ddisgyblion ym Mlynyddoedd 7 i 11 ddefnyddio eu ffonau symudol yn yr ysgol**. Yn ogystal, dim ond yn yr ystafell gyffredin y bydd disgyblion y Chweched Dosbarth yn medru defnyddio ffonau symudol.

*Campws Llanfair-ym-Muallt, Ffordd y Coleg, Llanfair-ym-Muallt, Powys, LD2 3BW*
*Builth Wells Campus, College Road, Builth Wells, Powys, LD2 3BW*
*Ffôn / Phone 01982 553292*

*Campws Llandrindod, Heol Dyffryn, Llandrindod, Powys, LD1 6AW*
*Llandrindod Wells Campus, Dyffryn Road, Llandrindod Wells, Powys LD1 6AW*
*Ffôn / Phone 01597 822992*

WAS In partnership with NATIONAL CHILDREN'S BUREAU Wellbeing Award for Schools 2022-2025

Prif nod y newid hwn yw hyrwyddo lles disgyblion a sicrhau ein bod yn uchafu'r cyfleoedd ar gyfer Addysgu a Dysgu. Yn gynyddol, mae'r defnydd o ffonau symudol yn her yn yr ysgol. Nid ydym ar eu pennau ein hunain yn hyn o beth ac mae ysgolion ledled Cymru'n adrodd ei bod yn gynyddol anodd i reoli ffonau symudol mewn amgylchedd ddysgu ers y pandemig.

Yn y llythyr hwn, byddaf yn esbonio pam y cymerwyd y penderfyniad hwn, sut rydym yn bwriadu mynd i'r afael â phryderon cyffredin, a sut y gallwch ein helpu ni. Nid yw hyn yn benderfyniad a wnaed ar frys, ond mae'n dilyn ymchwil ac adborth gan y tîm bugeiliol a chynrychiolwyr grwpiau rhanddeiliaid.

**Pam Gwahardd Ffonau Symudol ym Mlynyddoedd 7–11?**

Mae'r ymchwil a meddwl beirniadol canlynol wedi cyfrannu at ein penderfyniad i beidio â chaniatau ffonau yn Ysgol Calon Cymru yn ystod y diwrnod ysgol:

| | |
|---|---|
| **Ymchwil** | Darganfu astudiaeth gan Ysgol Economeg Llundain (gallwch ei ddarllen trwy ddilyn y ddolen hon) bod rheol dim yn rhoi'r effaith o roi wythnos ychwanegol o addysg i ddisgyblion yn ystod y flwyddyn academaidd. Yn wir, yn ein hystafelloedd dosbarth gallwn weld sut y mae ffonau symudol yn effeithio'n negyddol ar ddysgu ac yn aml yn tynnu sylw ein disgyblion. |
| **Perthnasoedd** | Mae'r pandemig wedi gyrru llawer o'n plant i ddibyniaeth aniach ar fyd rhithwir i ryngweithio'n gymdeithasol. Byddem yn hoffi pe bai amser eich plentyn yn yr ysgol yn cael ei dreulio'n ffurfio cyfeillgarwch wyneb-yn-wyneb iach, parchus. Rydym am annog mwy o drafodaeth a thrafod, a mwy o ryngweithio cymdeithasol. |
| **Dibyniad** | Mae'n ymddangos bod nifer cynyddol o ddisgyblion yn gaeth i gyfryngau cymdeithasol a chwarae siawns ar eu ffonau symudol. Yn ystod amser segur, mae llawer o ddisgyblion yn treulio cryn amser ar eu ffonau, ac mae rhai'n arddangos adweithiau eithafol os bydd eu ffonau'n cael eu cymryd oddi arnynt. Rydym yn teimlo y dylai'r ysgol fod yn fan lle mae'r ffocws ar ddysgu, gweithgareddau allgyrsiol a chyfeillgarwch. |
| **Cyswllt â Bwlio** | Mae sawl ffurf i seibrfwlio a gall gael canlyniadau difrifol. Yn ddiweddar bu'n rhaid i'r tîm bugeiliol gynnal cyfarfodydd cyfiawnder adferol yn dilyn negeseuon niweidiol, angharedig ar gyfryngau cymdeithasol. Yn yr un |

| | |
|---|---|
| | modd, weithiau defnyddir lluniau a fideos a gymerir heb ganiatâd y person i wawdio eraill a gall ddwysàu materion lles. Rydym yn canfod bod defnyddio ffonau symudol yn gwaethygu problemau mewn sawl achos. |

**Cwestiynau Cyffredin: Pryderon Cyffredinol ynglŷn â Dileu Ffonau Symudol**

Isod byddwn yn ateb rhai cwestiynau cyffredin ynglŷn â dileu ffonau symudol o'r ysgol. Os oes gennych gwestiwn nad ydym yn ei drafod isod cofiwch gysylltu â ni: www.ysgolcalon.cymru/contact

*Am resymau diogelu, rwyf am i'm plentyn fod â ffôn gyda hwy ar y siwrnai i ac o'r ysgol. A ganiateir hyn?*

Bydd eich plentyn yn dal i fedru bod â ffôn gyda hwy ar eu ffordd i ac o'r ysgol. Ond, bydd rhaid iddynt ei droi i ffwrdd a'i gadw yn eu bag wedi iddynt gyrraedd y campws drwy'r diwrnod ysgol. Gellir troi ffonau symudol ymlaen a'u defnyddio ar ddiwedd y diwrnod ysgol.

*Yn yr oes ddigidol, onid oes llawer o werth addysgol i ffonau symudol?*

Yn yr ysgol, gall eich plentyn ddefnyddio sawl ystafell TG yn ystod y dydd, ac amrywiaeth o ddyfeisiau symudol. Mae ein ffiltrau'n canfod camddefnydd ac yn atal myfyrwyr rhag gyrchu gwybodaeth amhriodol. Gan nad oes ffôn symudol gan bob plentyn, nid oes eu hangen yn yr un wers i gyflawni amcanion dysgu. Mae gennym hefyd ystafelloedd symudol o ipadiau a gliniaduron y gall ein disgyblion eu defnyddio.

*Rwyf am i fy mhlentyn fedru cysylltu â fi drwy'r dydd, sut all hyn ddigwydd heb ffôn symudol?*

Byddwch chi a'ch plentyn yn dal i fedru gysylltu â'ch gilydd yn ystod y dydd trwy swyddfa'r ysgol. Mae staff swyddfa ar y ddau gampws fydd yn medru cefnogi hyn.

**Sut y gallwch chi ein helpu ni**

Wedi dychwelyd i'r ysgol ym mis Ionawr, os yw eich plentyn ym Mlynyddoedd 7–11, **a fyddech gystal â gwneud yn siŵr eu bod yn gwybod bod rhaid bod eu ffôn wedi ei droi bant a'i gadw yn eu bag** yn ystod y diwrnod ysgol.

Gwyddom y bydd rhai disgyblion yn ceisio gwthio ffiniau'r polisi hwn. Canlyniad hyn fydd mynd â'r ffôn oddi wrthynt a chymerir y camau canlynol:

**Cymryd am y tro cyntaf**

Cymryd ffôn y disgybl a'i gadw'n ddiogel yn y dderbynfa hyd ddiwedd y diwrnod ysgol. Ar ddiwedd y diwrnod ysgol gall eich plentyn gasglu eu ffôn ac anfonir neges testun adref i'ch hysbysu am gymryd ffôn eich plentyn.

**Cymryd yr ail dro**

Cymryd ffôn y disgybl a'i gadw'n ddiogel yn y dderbynfa hyd ddiwedd y diwrnod ysgol. Yn ystod y diwrnod ysgol anfonir neges destun atoch i'ch hysbysu bod ffôn eich plentyn wedi cael ei gymryd am yr ail dro, a byddwn yn gofyn i chi gysylltu â'r ysgol i roi caniatâd i ni ddychwelyd ffôn eich plentyn ar ddiwedd y diwrnod ysgol.

**Cymryd y trydydd tro**

Cymryd ffôn y disgybl a'i gadw'n ddiogel yn y dderbynfa hyd ddiwedd y diwrnod ysgol. Ar ddiwedd y diwrnod ysgol anfonir neges destun atoch i'ch hysbysu bod ffôn eich plentyn wedi cael ei gymryd am y trydydd tro, a bydd rhaid i chi gasglu'r ffôn o dderbynfa'r ysgol.

Byddem yn gwerthfawrogi eich cefnogaeth ar yr achlysuron hyn.

Diolch am eich cefnogaeth barhaol. Fel bob amser, cofiwch gysylltu os oes gennych unrhyw gwestiwn neu bryder am y newid hwn i'n polisi ffôn symudol neu unrhyw beth arall rydym yn ei wneud yn Ysgol Calon Cymru. Y ffordd orau i gysylltu â'r ysgol yw trwy 'r manylion a restrir ar ein gwefan: www.ysgolcalon.cymru/contact

Cofion Cynnes,





Dr. Richard Jones
Pennaeth, Ysgol Calon Cymru